# CYNGOR TREF PORTHMADOG

Ar ddechrau cyfarfod Mis Tachwedd o Gyngor Tref Porthmadog, daeth Bryn Pritchard-Jones, Rheolwr Gwasanaeth Morwrol Cyngor Gwynedd, a Math Roberts, Swyddog Traethau ardal Porthmadog, i drafod gyda'r cynghorwyr y mater o garafanau symudol yn parcio dros nos ar Draeth Creigddu, Morfa Bychan. Roedd pryder wedi ei fynegi gan rai o'r cynghorwyr a thrigolion lleol oherwydd bod dros 60 o garafanau symudol ar y traeth ambell i noson yn ystod yr Haf a bod dim cyflysteurau ar y traeth iddynt.
Mynegodd y swyddogion yr anhawster maent yn ei wynebu wrth geisio datrys y broblem. Yn enwedig pan mae cynifer o berchnogion carafanau symudol yn gwrthod gadael y traeth pan oedd y giatiau yn cael eu cau. Problem sifil ydyw tresmasu a buasai angen gorchymyn statudol i gael pwerau i orfodi perchnogion y carafanau i adael y traeth cyn iddi nosi. Roedd darnau o'r Traeth y tu allan i berchnogaeth Cyngor Gwynedd yn ogystal. Nid yw yn broblem unigryw i Draeth Morfa Bychan. Roedd problemau o'r fath ar gynnydd oherwydd y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

## <u>19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 11eg 2025</u>

## <u>Cofnodion</u>

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Dr Melfyn Edwards, Cyng. Karena Owens, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Michael Roberts, Cyng. Edward Naish, Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Glenda Murray.
   Elfyn Lewis (Clerc).
   **Absennol:**
   Neb.
2. **Ymddiheuriadau:**
   Dim yn berthnasol. Pawb yn bresennol.

3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Hydref 2025**
   Cafwyd yn gywir. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Karena Owens yn eilio.

4. **Adroddiad y Cadeirydd:**
   Roedd hi'n newyddion da bod Cae Chwarae newydd yn Ganolfan Hamdden Glaslyn yn awr yn ei le.
   Roedd llawer o bobl wedi mynychu Gwasanaeth Sul y Cofio er y tywydd drwg.
   Cafwyd cyfarfod siomedig gyda cynrhychiolwyr o Betsi Cadwaladr a Mabon ap Gwynfor parthed clinig newydd i Borthmadog. Roedd un cynnig i leoli y clinig yn Y Ganolfan Hamdden ond nid oedd yn le delfrydol oherwydd prysurdeb y ganolfan.
   Roedd lloches bws Borth-y-Gest wedi ei farnu yr un gwledig orau yng Nghymru yn ystod 2025 gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig.

5. **Adroddiad y Clerc:**

   1. **Bryn Coffa. Sul y Cofio.**

      Sul y Cofio. Er gwaetha'r tywydd gwyntog a gwlyb, daeth tyrfa dda i'r gwasanaeth ar

Fryn Coffa.

Adroddwyd ei bod dal yn anodd i glywed y gwasanaeth o’r llwybr yn arwain at y gofgolofn. Penderfynwyd edrych i mewn i’r mater unwaith eto erbyn blwyddyn nesa i edrych os oes ateb i ddatrys y broblem.

**Rota glanhau Bryn Coffa (tri mis nesa):**
Mis Tachwedd. Llywelyn Rhys
Mis Rhagfyr. Jeremy Davies
Mis Ionawr. Y Clerc.

2. **Cronfa Gwynedd Ni.**

Angen caniatad Cyngor Gwynedd i osod y meinciau a’r raciau beic.

Mae manylion y meinciau a’r raciau beic a’r lleoliad maent am eu rhoi wedi ei yrru i swyddogion Cyngor Gwynedd.

Mae’r Clerc wrthi yn trefnu cyfarfod gyda un o swyddogion Cyngor Gwynedd.

3. **Trefniadau Nadolig.**
Roedd Coed Nadolig wedi eu harchebu. Cludiant o Rosgadfan i Borthmadog ar yr 11eg. Cyngor Gwynedd am osod y coed Nadolig ar y 12eg. R.J. Electrics am ddechrau roi y goleuadau Nadolig yn eu lle o’r wythnos yn dechrau Tach. 13eg.

4. **Noson goleuo Port.**
Mae Pauline Williams, rheolwraig Y Ganolfan, wrthi’n brysur yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y noson goleuo.

5. **Cae Pawb.**
Archwiliad ar Dach. 15fed. Gwahoddwyd y Cynghorwyr i fynychu.

Mae Cadeirydd ac Ysgrifenyddes Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb wedi eu penodi.

Bydd y biliau am 2026 yn mynd i’r garddwyr yn ystod Mis Rhagfyr. (Mae’r drefn wedi newid yn awr i gyfnod Mis Ionawr – Rhagfyr yn hytrach na Ebrill – Mawrth).

6. **Siambr Fasnach.**

Mae angen trefnu cyfarfod arall. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cael eglurhad os mai nhw yntau Cyngor Tre Porthmadog sydd am fwrw ymlaen gyda’r broses.

7. **Cae Chwarae Bodawen.**

Mae tap coch ac arwyddion wedi eu rhoi o amgylch y ddau siglen peryglus i rybuddio y cyhoedd nid i’w defnyddio.

Mae fishergerman (Grid Cenedlaethol) yn bwriadu dechrau’r gwaith ar Gae Bodawen yn ystod Mis Ionawr 2026.

8. **Llochesi Bysiau.**

Mae ***designersignsnorthwales*** wedi ail-osod dau banel newydd yn lloches bws Steshon ar gost o £688 (£825.60 gyda TAW). (fel a gytunwyd yn cyfarfod Hydref). Mae’r gost o roi 6 logo newydd Traws Cymru ar y lloches yn £366 yn ychwanegol. Mae aneglurder os mai’r Cyngor Tre ynteu Trafnidiaeth Cymru sydd yn gyfrifol am drefnu a talu am hyn? Penderfynwyd i egluro i Trafnidiaeth Cymru mai ei cyfrifoldeb hwy fydd rhoi eu logo ar y lloches.

9. **Arwyddion newydd Porthmadog.**

Mi fydd Cyngor Gwynedd yn trefnu gwaith cywiro y camgymeriadau ar yr arwyddion. Mi fydd yr arwyddion gwallus yn mynd o'r Stryd Fawr ac yn cael eu ail-gosod – proses a gymerith i fyny at 6 wythnos.
Nid oes mwy o newyddion am arwydd Y Cyngor Tre o flaen Y Ganolfan wnaeth Cyngor Gwynedd dynnu ei lawr heb ymgynghori.

6. **Datgan diddordeb:**
Gohebiaeth 2. Llywelyn Rhys. Aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

7. **CEISIADAU CYNLLUNIO:**
   a. Rhif Cais: C25/0791/44/LL
   Lleoliad: Fferm Penmount, Ffordd Glanrafon, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PP
   Bwriad: Ymestyn a gwella storfa slyri bresennol.
   **Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**

   b. Rhif Cais / Application No.: C25/0758/44/HT
   Lleoliad: Tir ar Greenacres Holiday Park, Black Rock Sands, Morfa Bychan, LL49 9YF

   Bwriad: Gosod gorsaf sylfaen telathrebu sy'n cynnwys monopol 23.14m yn cynnal 6 antena ar ffrâm ben, ynghyd â 3 chabinet offer ar y ddaear, 1 cabinet mesurydd o fewn cyffiniau wedi'i ffensio a datblygiad ategol iddo.
   **Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**

8. **MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**

Trefnu asesiad i'r Clerc erbyn diwedd Mis Tachwedd (Asesiad 6 mis).
Penderfynwyd i'r is-bwyllgor Staffio gyfarfod a'r Clerc ar yr 2il o Ragfyr am 6 o'r gloch.

9. **MATERION I'W DWYN GERBRON:**

**Y Cyng. Jeremy Davies:**
Pwnc: Cynnig i adleoli offer chwarae:
<u>Cynnig:</u>
Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn ystyried cefnogi adleoli'r gylchfan a'r ffrâm ddringo fach (gan gynnwys sleid) o Faes Chwarae Bodawen i'r parc ym Mhorth-y-Gest, yn dilyn cais gan Grŵp Teulu Borth-y-Gest.

<u>Rhesymeg:</u>
Mae trigolion wedi mynegi angen am gyfleusterau chwarae ychwanegol ym Morth-y-Gest oherwydd y nifer cynyddol o deuluoedd ifanc yn yr ardal. Mae'r offer dan sylw ym Modawen mewn cyflwr da ac yn addas i'w ailddefnyddio. Felly, byddai adleoli yn cynrychioli budd i'r gymuned ac yn ddefnydd cost-effeithiol o adnoddau presennol.
<u>Camau Gweithredu Arfaethedig:</u>
Os caiff ei gymeradwyo, bydd clerc y cyngor yn ceisio caniatâd gan y Grid Cenedlaethol fel y perchennog newydd a chysylltu â thîm cynnal a chadw meysydd chwarae Cyngor Gwynedd ynghylch tynnu a hailosod yn ddiogel.
**Penderfyniad: Roedd swyddog o Gyngor Gwynedd wedi bod draw i Gae Chwarae Bodawen i edrych ar yr offer chwarae yn y parc. Ei farn ef oedd nad oeddynt mewn cyflwr digon da i'w ail-lleoli er eu bod yn ddigon saff i'w defnyddio. Buasai'r broses o'u symud hefyd yn gwaethygu cyflwr yr offer. Roedd cwmni G.L.Jones hefyd yn eu harchwiliad o'r offer wedi tynnu sylw bod yr offer yn hen er eu bod yn saff i'w defnyddio heblaw y ddau siglen.**

**Y Cyng. Dr Melfyn Edwards:**
Mae moch o gorsydd Borth y Gest yn torri trwadd i'r tir ble mae llwybr cyhoeddus Cae

Llety. Maent yn gwneud llanast - troi tir, creu mwd, gadael carthion ayb.
Cynnig fod y Cyngor Tref yn holi Cyngor Gwynedd ynglyn a pherchnogaeth y tir yma. Hyn er mwyn medru cysylltu hefo'r perchenog er mwyn sicrhau cadw'r llwybr yn glir o unrhyw broblem achosir gan y moch.
**Penderfyniad. Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i ddarganfod pwy sydd biau y tir a phwy sy'n gyfrifol am gadw y llwybr cyhoeddus mewn cyflwr da i'w gerdded.**

**10. GOHEBIAETH: Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Steffan Jones (Cyngor Gwynedd) | Holi am paham mae arwydd Stryd Dulyn wedi diflannu. |

**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog eto.**

**11. GOHEBIAETH:**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Hannah Streeter | Gofyn am cael ei heithro o archwiliad Cae Pawb Tachwedd 2025 **Derbyn y wybodaeth.** |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gohirio mynychu cyfarfod Cyngor Tre Mis Tachwedd **Trefnu i gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru i fynychu cyfarfod Mis Ionawr o Gyngor Tre Porthmadog.** |
| 3 | Gwenno Mai Owen | Arolwg ar Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd **Derbyn y wybodaeth.** |
| 4 | Lowri Haf Evans | Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian **Derbyn y wybodaeth.** |
| 5 | Deb Justice | Cronfa Beilot Dydd Gwyl Dewi **Y Clerc i edrych ar y ffurflen gais. Cydnabod bod yr amserlen yn dynn iawn i wneud cais. Ystyried eto blwyddyn nesa os bydd y grant ar gael eto.** |
| 6 | Rhian Elin George | Siambr Fasnach Port **Derbyn y wybodaeth. Y Clerc i gysylltu gyda Rhian George i gael eglurhad ar unai Cyngor Gwynedd ai Cyngor Tre Porthmadog sydd am fwrw ymlaen gyda'r broses.** |
| 7 | Ambiwlans Awyr Cymru | Apel ariannol. **I'w drafod ddechrau 2026 pan fydd y Cyngor Tre yn delio gyda ceisiadau ariannol.** |
| 8 | Catrin Thomas | Holiadur Cyngor Gwynedd – Gwasanaethau ac Ymholiadau **Y Clerc i gwblhau yr holiadur.** |

**<u>12. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | H.S.B.C. | Llog banc | £44.53 |

**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Hydref 2025 | £60.67 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Hydref 2025 | £1408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Hydref 2025 | £352.14 |
| 4 | John Parry Evans | Anglesey Falconry - Gwylanod | £400 |
| 5 | Criccieth Cleaning Ltd | Glanhau llochesi bws | £215.11 |
| 6 | Y Ganolfan | Llogi stafell – Cyfarfod Siambr Fasnach | £40 |
| 7 | Cyngor Gwynedd | Toiled Y Parc | £8,000 |
| 8 | gardencraft | Ail-blannu tybiau blodau Porthmadog a Thremadog | £525 |
| 9 | H.S.B.C. | Ffi bancio | 0.80 |

Cymeradwywyd y taliadau. Cynnig. Cyng. Dr Melfyn Edwards. Eilio – Cyng. Jeremy Davies.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol).

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Elfyn Lewis (Clerc)
17/11/25

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*